

# RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

## Bil yr Amgylchedd (Cymru) Environment (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â \* ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu  
Amendments marked \* are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant  
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu  
17 wrth gyflwyno'r gwelliant.

Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest  
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling  
the amendment.

---

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –  
The Bill will be considered in the following order –

Sections 1-89	Adrannau 1-89
Schedules 1-2	Atodlenni 1-2
Long Title	Teitl Hir

---

### Llyr Gruffydd

68

Section 3, page 2, line 1, leave out –

'the resilience of ecosystems and the benefits they provide and, in so doing –

- (a) meet the needs of present generations of people without compromising the ability of future generations to meet their needs, and
- (b) contribute to the achievement of the well-being goals in section 4 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (anaw 2).'

and insert –



'a biodiverse natural environment with healthy functioning ecosystems that support social, economic and ecological resilience and the capacity to adapt to change (for example climate change)'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 1, hepgorer –

'cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt ac, wrth wneud hynny –

- (a) diwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a
- (b) cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2)'

a mewnosoder –

'amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)'.

### **William Powell**

36

Section 4, page 2, after line 10, insert –

- '() act in accordance with the precautionary principle that where there are threats of serious or irreversible damage, lack of full scientific certainty is not to be used as a reason for postponing cost-effective measures to prevent environmental degradation;'.

Adran 4, tudalen 2, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

- '() gweithredu yn unol â'r egwyddor ragofalus nad yw diffyg sicrwydd gwyddonol llawn i gael ei ddefnyddio fel rheswm dros ohirio mesurau cost-ffeithiol i atal dirywiad amgylcheddol pan fo bygythiadau o ddifrod difrifol neu ddifrod na ellir ei ddadwneud;'.

### **Janet Haworth**

51

Section 4, page 2, after line 10, insert –

- '() take account of the importance of food production;'.

Adran 4, tudalen 2, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

- '() ystyried pwysigrwydd cynhyrchu bwyd;'.

### **Janet Haworth**

52

Section 4, page 2, after line 11, insert –

- '() take account of the importance of tourism;'.

Adran 4, tudalen 2, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

- '() ystyried pwysigrwydd twristiaeth;'.



- Russell George** 49  
Section 4, page 2, line 16, after 'resources', insert 'landscapes'.  
Adran 4, tudalen 2, llinell 17, ar ôl 'naturiol', mewnosoder 'tirweddau'.
- Russell George** 50  
Section 4, page 2, after line 17, insert—  
( ) to safeguard those characteristic features of a landscape consistent with its heritage value, be they derived from its natural configuration and/or from human activity;'.  
Adran 4, tudalen 2, ar ôl llinell 17, mewnosoder—  
( ) diogelu'r nodweddion hynny o dirwedd sy'n gyson â'i gwerth treftadaeth, pa un a ydynt yn deillio o'i chyfluniad naturiol a/neu o weithgarwch dynol;'.  
( )
- Carl Sargeant** 5  
Section 4, page 2, line 19, leave out 'serious or irreversible' and insert 'significant'.  
Adran 4, tudalen 2, llinell 19, hepgorer 'difrifol neu ddi-droi'n-ôl' a mewnosoder 'arwyddocaol'.
- Carl Sargeant** 6  
Section 4, page 2, line 24, after 'ecosystems', insert '(including their structure and functioning)'.  
Adran 4, tudalen 2, llinell 24, ar ôl 'ecosystemau', mewnosoder '(gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad)'.  
( )
- Janet Haworth** 53  
Section 5, page 2, line 33, after 'resources', insert 'and the environment'.  
Adran 5, tudalen 2, llinell 33, ar ôl 'naturiol', mewnosoder 'a'r amgylchedd'.
- Janet Haworth** 54  
Section 5, page 3, after line 10, insert—  
"environment" ("*amgylchedd*") includes, without limitation, living organisms and ecosystems.'.  
Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 10, mewnosoder—  
'mae "*amgylchedd*" ("*environment*") yn cynnwys, heb gyfyngiad, organeddau byw ac ecosystemau.'.  
( )
- Janet Haworth** 55  
Section 5, page 3, after line 14, insert—  
( ) In article 5B, for "In exercising any function relating to nature conservation" substitute "In carrying out sustainable natural resource management".'.  
Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 15, mewnosoder—  
( )



- '( ) Yn erthygl 5B, yn lle "Wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â chadwraeth natur," rhodder "Wrth reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy".'

**Janet Haworth**

56

Section 5, page 3, line 15, leave out 'articles 5B and' and insert 'article'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 16, hepgorer 'erthyglau 5B a' a mewnosoder 'erthygl'.

**Carl Sargeant**

7

Section 6, page 3, line 25, after 'ecosystems', insert '(including their structure and functioning)'.

Adran 6, tudalen 3, llinell 27, ar ôl 'ecosystemau', mewnosoder '(gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad)'.

**Carl Sargeant**

8

Section 6, page 3, line 27, after 'to', insert –

- '(a) the exercise of a function by Her Majesty's Revenue and Customs, or'

Adran 6, tudalen 3, llinell 29, ar ôl 'i', mewnosoder –

- (a) arfer swyddogaeth gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, neu'

**William Powell**

37

Section 6, page 3, line 31, after '1992', insert ', and any other public authority must have regard to any guidance given to it by the Welsh Ministers'.

Adran 6, tudalen 3, llinell 34, ar ôl '1992', mewnosoder ', a rhaid i unrhyw awdurdod cyhoeddus arall roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru'.

**William Powell**

2

Section 6, page 3, after line 31, insert –

- '( ) In complying with subsection (1), a public authority other than a Minister of the Crown or government department must have regard to –

- (a) the list published under section 7;  
(b) the state of natural resources report published under section 8;  
(c) any area statement published under section 11 for an area that includes all or part of an area in relation to which the authority exercises functions.'

Adran 6, tudalen 3, ar ôl llinell 34, mewnosoder –



- '( ) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth roi sylw i—
- (a) y rhestr a gyhoeddir o dan adran 7;
  - (b) yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a gyhoeddir o dan adran 8;
  - (c) unrhyw ddatganiad ardal a gyhoeddir o dan adran 11 ar gyfer ardal sy'n cynnwys ardal gyfan neu ran o ardal y mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn perthynas a hi.'

**William Powell**

1

Section 6, page 3, line 32, leave out subsection (5) and insert—

- '(5) A public authority other than a Minister of the Crown or government department must prepare and publish a plan setting out what it proposes to do to comply with subsection (1).
- (6) A public authority must, before the end of 2019 and before the end of every third year after 2019, publish a report on what it has done to comply with subsection (1).
- (7) A public authority that has published a plan under subsection (5)—
- (a) must review the plan in the light of each report that it publishes under subsection (6), and
  - (b) may revise the plan at any time.'

Adran 6, tudalen 3, llinell 35, hepgorer is-adran (5) a mewnosoder—

- '(5) Rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud er mwyn cydymffurfio ag is-adran (1).
- (6) Rhaid i awdurdod cyhoeddus, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio ag is-adran (1).
- (7) O ran awdurdod cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynllun o dan is-adran (5)—
- (a) rhaid iddo adolygu'r cynllun yng ngoleuni pob adroddiad a gyhoeddir ganddo o dan is-adran (6), a
  - (b) caiff adolygu'r cynllun unrhyw bryd.'

**Janet Haworth**

57

Section 8, page 5, at the beginning of line 25, insert 'Subject to its capacity to do so.



Adran 8, tudalen 5, ar ddechrau llinell 26, mewnosoder 'Yn ddarostyngedig i'w gapasiti i wneud hynny'.

**William Powell**

3

Section 8, page 5, line 26, leave out ', including its assessment of the extent to which sustainable management of natural resources is being achieved.' and insert –

'( ) Each report must, among other things, set out –

- (a) NRW's assessment of the extent to which sustainable management of natural resources is being achieved;
- (b) NRW's assessment of biodiversity (including the living organisms and types of habitat included in any list published under section 7);
- (c) what NRW considers to be the main trends and factors that are affecting, and are likely to affect, the state of natural resources;
- (d) any aspects of the state of natural resources about which NRW considers that it does not have sufficient information to make an assessment.'

Adran 8, tudalen 5, llinell 27, hepgorer ', gan gynnwys ei asesiad o'r graddau y mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni.' a mewnosoder –

'( ) Rhaid i bob adroddiad nodi, ymysg pethau eraill –

- (a) asesiad CNC o'r graddau y mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni;
- (b) asesiad CNC o fioamrywiaeth (gan gynnwys yr organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd a gynhwysir ar unrhyw restr a gyhoeddir o dan adran 7);
- (c) yr hyn y mae CNC yn ei ystyried yw'r prif dueddiadau a ffactorau sy'n effeithio, ac sy'n debygol o effeithio, ar gyflwr adnoddau naturiol;
- (d) unrhyw agweddau ar gyflwr adnoddau naturiol y mae CNC yn ystyried nad oes ganddo wybodaeth ddigonol amdanynt i wneud asesiad.'

**Carl Sargeant**

9

Section 8, page 5, line 32, leave out 'send a draft of each report required by subsection (3) to the Welsh Ministers before the end of the calendar year preceding the year in which it' and insert 'publish a draft of each report required by subsection (3) before the end of the calendar year preceding the year in which the report'.



Adran 8, tudalen 5, llinell 33, hepgorer 'anfon drafft o bob adroddiad sy'n ofynnol gan is-adran (3) at Weinidogion Cymru cyn diwedd y flwyddyn galendr sy'n dod cyn y flwyddyn y mae'n rhaid iddo' a mewnosoder 'gyhoeddi drafft o bob adroddiad sy'n ofynnol gan is-adran (3) cyn diwedd y flwyddyn galendr sy'n dod cyn y flwyddyn y mae'n rhaid i'r adroddiad'.

### **Llyr Gruffydd**

69

Section 9, page 6, after line 5, insert –

- '( ) The Welsh Ministers must publish with the document referred to in subsection (1) –
- (a) the results of any consultation, including any internal memorandum relevant to that document, and
  - (b) any advice received in relation to the preparation of that document save where such advice falls within any of the exemptions set out in the Environmental Information Regulations 2004.'

Adran 9, tudalen 6, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

- '( ) Ynghyd â'r ddogfen y cyfeirir ati yn is-adran (1) rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi –
- (a) canlyniadau unrhyw ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw femorandwm mewnol sy'n berthnasol i'r ddogfen honno, a
  - (b) unrhyw gyngor a gafwyd ynghylch paratoi'r ddogfen honno ac eithrio pan fo cyngor o'r fath yn dod o fewn unrhyw un o'r esemptiadau a bennir yn Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.'

### **Janet Haworth**

58

Section 9, page 6, after line 9, insert –

- '( ) The national natural resources policy must include the following –
- (a) a hierarchy of objectives or a mechanism for prioritising objectives;
  - (b) a mechanism for resolving conflicts between objectives; and
  - (c) an action plan that sets out who will be responsible for delivering objectives in that plan.'

Adran 9, tudalen 6, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

- '( ) Rhaid i'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol gynnwys y canlynol –
- (a) hierarchaeth o amcanion neu drefn ar gyfer blaenoriaethu amcanion;
  - (b) trefn ar gyfer datrys gwrthdaro rhwng amcanion; ac
  - (c) cynllun gweithredu sy'n nodi pwy fydd yn gyfrifol am gyflawni amcanion yn y cynllun hwnnw.'



**William Powell**

10A

As an amendment to amendment 10, at the beginning of line 4, insert 'annexing'.

Fel gwelliant i welliant 10, ar ddechrau llinell 4, mewnosoder 'atodi'.

**Carl Sargeant**

10

Section 9, page 6, after line 27, insert—

'(10) When the Welsh Ministers publish the national natural resources policy (or a revised policy), they must also publish a report summarising—

- (a) any consultation that was carried out in preparing the policy, and
- (b) any representations that were received as a result of the consultation.'

Adran 9, tudalen 6, ar ôl llinell 29, mewnosoder—

'(10) Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol (neu bolisi diwygiedig), rhaid iddynt hefyd gyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi—

- (a) unrhyw ymgynghori a gynhaliwyd wrth baratoi'r polisi, a
- (b) unrhyw sylwadau a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghori.'

**Janet Haworth**

59

Section 11, page 7, after line 29, insert—

'( ) Before publishing an area statement, NRW must consult—

- (a) any public body specified in section 10(1) who exercises functions in the area covered by the area statement,
- (b) a water or sewerage undertaker who exercises functions in the area covered by the area statement, and
- (c) such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate.'

Adran 11, tudalen 7, ar ôl llinell 33, mewnosoder—

'( ) Cyn cyhoeddi datganiad ardal, rhaid i CNC ymgynghori ag—

- (a) unrhyw gorff cyhoeddus a bennir yn adran 10(1) ac sy'n arfer swyddogaethau yn yr ardal y mae'r datganiad ardal yn berthnasol iddi,
- (b) ymgymwrwr dŵr neu garthffosiaeth sy'n arfer swyddogaethau yn yr ardal y mae'r datganiad ardal yn berthnasol iddi, ac
- (c) personau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.'





**Carl Sargeant**

11

Section 11, page 8, after line 10, insert—

‘(4) NRW must ensure that every part of Wales is included in at least one of the areas for which it prepares an area statement.’

Adran 11, tudalen 8, ar ôl llinell 10, mewnosoder—

‘(4) Rhaid i CNC sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cael ei chynnwys yn o leiaf un o’r ardaloedd y mae’n paratoi datganiad ardal ar eu cyfer.’

**Carl Sargeant**

12

Section 16, page 10, line 8, leave out subsection (4) and insert—

“interest in land” (“*buddiant mewn tir*”) includes any estate in land and any right over land, whether the right is exercisable by virtue of ownership of an interest in land or by virtue of a licence or agreement, and in particular includes sporting rights;’

Adran 16, tudalen 10, llinell 9, hepgorer pob gair ar ôl a chan gynnwys ‘gan’ yn llinell 9 hyd at a chan gynnwys llinell 13 a mewnosoder—

“*buddiant mewn tir*” (“*interest in land*”) yn cynnwys unrhyw ystad mewn tir ac unrhyw hawl dros dir, pa un a yw’r hawl yn arferadwy yn rhinwedd perchenogaeth o fuddiant mewn tir neu yn rhinwedd trwydded neu gytundeb, ac mae’n cynnwys yn benodol hawliau helwriaeth;’

**Janet Haworth**

60

Section 22, page 12, after line 36, insert—

‘() When NRW makes an application pursuant to subsection (1), it must forthwith publish all the documents submitted to the Welsh Ministers in support of its application.’

Adran 22, tudalen 12, ar ôl llinell 36, mewnosoder—

‘() Pan fo CNC yn gwneud cais yn unol ag is-adran (1), rhaid iddo gyhoeddi yn ddiymdroi yr holl ddogfennau a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru i gefnogi ei gais.’

**William Powell**

38

Section 22, page 13, line 7, after ‘out,’ insert ‘and does not present an unacceptable level of risk.’

Adran 22, tudalen 13, llinell 8, ar ôl ‘naturiol,’ mewnosoder ‘ac nad yw’n peri lefel annerbyniol o risg.’

**Janet Haworth**

61

Page 14, line 28, leave out section 24.

Tudalen 14, llinell 30, hepgorer adran 24.



**Carl Sargeant**

13

Section 24, page 14, line 31, after 'report', insert 'or a draft of such a report'.

Adran 24, tudalen 14, llinell 33, ar ôl 'naturiol', mewnosoder 'neu ddrafft o adroddiad o'r fath'.

**William Powell**

39

Section 25, page 15, after line 11, insert—

**[ ] Guidance for the purposes of Part 1**

- (1) The Welsh Ministers may issue guidance to public authorities other than Ministers of the Crown or government departments with respect to, or in connection with, the exercise of any of the powers conferred, or the discharge of any of the duties imposed, on those authorities by or under this Part.
- (2) In this section "public authority" has the same meaning as in section .
- (3) A public authority other than a Minister of the Crown or government department, in carrying out any of its functions under or by virtue of this Part, must have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers under this Part.'

Adran 25, tudalen 15, ar ôl llinell 13, mewnosoder—

**[ ] Canllawiau at ddibenion Adran 1**

- ( ) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth o ran arfer unrhyw un neu ragor o'r pwerau, neu mewn cysylltiad ag arfer unrhyw un neu ragor o'r pwerau, a roddir i'r awdurdodau, neu ryddhau unrhyw un neu ragor o'r dyletswyddau a osodir, gan neu o dan y Rhan hon.
- ( ) Yn yr adran hon mae i "awdurdod cyhoeddus" yr ystyr a roddir gan adran 6(6).
- ( ) Rhaid i awdurdod lleol, ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth, wrth gyflawni unrhyw un neu ragor o'i ddyletswyddau o dan y Rhan hon, neu yn rhinwedd y Rhan hon, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan y Rhan hon.'

**Carl Sargeant**

14

Section 26, page 15, after line 13, insert—

"biodiversity" ("*bioamrywiaeth*") means the diversity of living organisms, whether at the genetic, species or ecosystem level;'

Adran 26, tudalen 15, ar ôl llinell 16, mewnosoder—

'ystyr "*bioamrywiaeth*" ("*biodiversity*") yw amrywiaeth organeddau byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth neu ecosystem;'



**Carl Sargeant**

15

Section 26, page 15, after line 13, insert—

“ecosystem” (“*ecosystem*”) means a system consisting of living organisms interacting with one another and with their non-living environment;’.

Adran 26, tudalen 15, ar ôl llinell 19, mewnosoder—

‘ystyr “ecosystem” (“*ecosystem*”) yw system sy’n cynnwys organeddau byw sy’n rhyngweithio â’i gilydd a chyda’u hamgylchedd anfyw;’.

**William Powell**

40

Section 26, page 15, after line 13, insert—

“biodiversity” (“*bioamrywiaeth*”) means the variability among living organisms from all sources including, inter alia, terrestrial, marine and other aquatic ecosystems, and the ecological complexes of which they are part; this includes diversity within species, between species and of ecosystems.’.

Adran 26, tudalen 15, ar ôl llinell 16, mewnosoder—

‘ystyr “bioamrywiaeth” (“*biodiversity*”) yw’r amrywioldeb ymhlith organeddau byw o bob tarddle gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, ecosystemau’r tir a’r môr ac ecosystemau dyfrol eraill a’r cymhlygion ecolegol y maent yn rhan ohonynt; mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o fewn rhywogaethau a rhwng rhywogaethau, ac amrywiaeth ecosystemau.’.

**William Powell**

41

Section 26, page 15, after line 13, insert—

“ecosystem” (“*ecosystem*”) means a dynamic complex of plant, animal and micro-organism communities and their non-living environment interacting as a functioning unit.’.

Adran 26, tudalen 15, ar ôl llinell 19, mewnosoder—

‘ystyr “ecosystem” (“*ecosystem*”) yw gwedd cymhleth a dynamig lle mae planhigion, anifeiliaid a micro-organeddau a’u hamgylchedd anfyw, yn rhyngweithio fel uned weithredol.’.



## **Llyr Gruffydd**

70

Section 26, page 15, after line 13, insert—

“biodiversity” (“*bioamrywiaeth*”) has the same meaning as has “biological diversity” in the United Nations Environmental Programme Convention on Biological Diversity of 5 June 1992 as amended from time to time (or in any United Nations Convention replacing that Convention).’.

Adran 26, tudalen 15, ar ôl llinell 16, mewnosoder—

‘mae i “bioamrywiaeth” (“*biodiversity*”) yr un ystyr ag a roddir i “biological diversity” yng Nghonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol dyddiedig 5 Mehefin 1992 fel y caiff ei ddiwygio o bryd i’w gilydd (neu mewn unrhyw Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig sy’n disodli’r Confensiwn hwnnw).’.

## **Llyr Gruffydd**

71

Section 26, page 15, after line 13, insert—

“ecosystem” (“*ecosystem*”) has the same meaning as in the United Nations Environmental Programme Convention on Biological Diversity of 5 June 1992 as amended from time to time (or in any United Nations Convention replacing that Convention).’.

Adran 26, tudalen 15, ar ôl llinell 19, mewnosoder—

‘mae i “ecosystem” (“*ecosystem*”) yr un ystyr ag a roddir i “ecosystem” yng Nghonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol dyddiedig 5 Mehefin 1992 fel y caiff ei ddiwygio o bryd i’w gilydd (neu mewn unrhyw Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig sy’n disodli’r Confensiwn hwnnw).’.

## **William Powell**

42

Section 26, page 15, after line 25, insert—

‘( ) The Welsh Ministers may by regulations amend the definitions of “biodiversity” and “ecosystem” in the event they consider it necessary as a result of any change in those definitions in the United Nations Environmental Programme Convention on Biological Diversity of 5 June 1992, or the replacement of the Convention.’.

Adran 26, tudalen 15, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

‘( ) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio’r diffiniad o “bioamrywiaeth” ac “ecosystem” pe byddent yn ystyried ei bod yn angenrheidiol o ganlyniad i unrhyw newid yn y diffiniadau hynny yng Nghonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol dyddiedig 5 Mehefin 1992, neu Gonfensiwn sy’n disodli’r Confensiwn hwnnw.’.



**William Powell** 43

Section 29, page 16, line 10, leave out 'at least 80%' and insert '100%'.

Adran 29, tudalen 16, llinell 10, hepgorer 'o leiaf 80%' a mewnosoder '100%'.

**William Powell** 44

Section 29, page 16, line 13, leave out subsection (3).

Adran 29, tudalen 16, llinell 13, hepgorer is-adran (3).

**Llyr Gruffydd** 72

Section 29, page 16, after line 14, insert –

'( ) The advisory body designated under section 44 must, before the fifth anniversary of the coming into force of this section, review and report on the adequacy of the 2050 emissions target.'

Adran 29, tudalen 16, ar ôl llinell 14, mewnosoder –

'( ) Rhaid i'r corff cyngori a ddynodir o dan adran 44, cyn pen pob cyfnod o bum mlynedd ar ôl i'r adran hon ddod i rym, adolygu digonolrwydd targed allyriadau 2050 a chyflwyno adroddiad ar hynny.'

**Janet Haworth** 62

Section 29, page 16, after line 15, insert –

'(5) The Welsh Ministers must lay before the National Assembly for Wales a report in respect of each year in the period 2016-2050 on the progress made towards the 2050 emissions target.'

Adran 29, tudalen 16, ar ôl llinell 15, mewnosoder –

'(5) Rhaid i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â phob blwyddyn yn y cyfnod 2016-2050 ar y cynnydd a wnaed tuag at darged allyriadau 2050.'

**Carl Sargeant** 16

Section 30, page 16, line 22, after 'are', insert '2020,'.

Adran 30, tudalen 16, llinell 23, ar ôl 'yw', mewnosoder '2020,'.



**Llyr Gruffydd**

73

Section 30, page 16, after line 23, insert –

‘() The interim emissions target for 2020 must be at least 40% lower than the baseline.’

Adran 30, tudalen 16, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

‘(5) Rhaid i’r targed allyriadau dros dro ar gyfer 2020 fod o leiaf 40% yn is na’r waelodlin.’

**William Powell**

45

Section 32, page 17, after line 11, insert –

‘() When setting a target or budget in accordance with subsection (1) or making regulations changing the 2050 emissions target the Welsh Ministers must be satisfied that the target, budget or regulation are consistent with –

- (a) the principle that global warming should be kept to well below 2 degrees Celsius above average pre-industrial levels, and
- (b) the pursuit of efforts to limit the increase in global average temperature to 1.5 degrees Celsius above average pre-industrial levels.’

Adran 32, tudalen 17, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘() Wrth bennu targed neu gyllideb yn unol ag is-adran (1) neu wneud rheoliadau yn newid targed allyriadau 2050 rhaid bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y targed, y gyllideb neu’r rheoliad yn gyson â’r canlynol –

- (a) yr egwyddor y dylid cadw cynhesu byd-eang yn is o lawer na 2 radd Celsius uwch ben y lefelau cynddiwydiannol cyfartalog, a
- (b) yr ymdrechion i gyfyngu ar y cynnydd yn y tymheredd byd-eang cyfartalog i 1.5 gradd Celsius uwch ben y lefelau cynddiwydiannol cyfartalog.’

**Llyr Gruffydd**

74

Section 32, page 17, line 12, leave out ‘may not make’ and insert ‘must consider making’.

Adran 32, tudalen 17, llinell 12, hepgorer ‘Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud’ a mewnosoder ‘Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried gwneud’.

**Llyr Gruffydd**

75

Section 32, page 17, line 13, leave out ‘unless’ and insert ‘if’.

Adran 32, tudalen 17, llinell 13, hepgorer ‘oni bai bod’ a mewnosoder ‘os yw’.



**Janet Haworth**

63

Section 32, page 17, after line 24, insert –

‘() the importance of taking global responsibility for climate change,’.

Adran 32, tudalen 17, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

‘() pwysigrwydd cymryd cyfrifoldeb yn fyd-eang am newid yn yr hinsawdd,’.

**Carl Sargeant**

17

Section 32, page 17, line 31, after ‘change’, insert ‘(including international agreements on measures designed to limit increases in global average temperatures)’.

Adran 32, tudalen 17, llinell 33, ar ôl ‘hinsawdd’, mewnosoder ‘(gan gynnwys cytundebau rhyngwladol ar fesurau a gynlluniwyd i gyfyngu ar gynnydd mewn tymheredd cyfartalog byd-eang)’.

**Llyr Gruffydd**

76

Section 32, page 17, after line 31, insert –

‘(g) what the Welsh Ministers consider to be a fair and equitable Welsh share of global carbon budgets in the context of the well-being goal of a globally responsible Wales in section 4 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.’.

Adran 32, tudalen 17, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

‘(g) yr hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn rhan deg a chyfiawn o gyllidebau carbon byd-eang Cymru yng nghyd-destun y nod llesiant o Gymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.’.

**Llyr Gruffydd**

77

Section 32, page 17, after line 31, insert –

‘(g) achieving a reduction of 40% in gross greenhouse gas emissions in Wales by 2020 from the baseline.’.

Adran 32, tudalen 17, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

‘(g) sicrhau gostyngiad o 40% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr gros yng Nghymru erbyn 2020 o’r waelodlin.’.



**William Powell**

46

Section 39, page 21, after line 6, insert –

- ‘( ) The report must also set out the Welsh Ministers’ proposals and policies regarding the respective contributions towards meeting the 2050 emissions target, any interim target and any carbon budget that should be made by –
- (a) energy efficiency;
  - (b) energy generation, including renewable sources of energy;
  - (c) land use; and
  - (d) transport.
- ( ) The report must explain how the proposals and policies set out in the report are expected to affect different sectors of the Welsh economy.’.

Adran 39, tudalen 21, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- ‘( ) Rhaid i’r adroddiad hefyd nodi cynigion a pholisïau Gweinidogion Cymru ynghylch y cyfraniadau tuag at gyrraedd targed 2050, unrhyw darged interim ac unrhyw gyllideb garbon y dylai’r canlynol eu gwneud –
- (a) effeithlonrwydd ynni;
  - (b) cynhyrchu ynni, gan gynnwys ffynonellau adnewyddadwy o ynni;
  - (c) defnydd tir; a
  - (d) trafnidiaeth.
- ( ) Rhaid i’r adroddiad egluro y disgwylir i’r cynigion a’r polisïau a bennir yn yr adroddiad effeithio ar sectorau gwahanol o economi Cymru.’.

**Carl Sargeant**

18

Section 41, page 22, after line 14, insert –

- ‘(10) The assessment must cover the areas of responsibility of each of the Welsh Ministers.’.

Adran 41, tudalen 22, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

- ‘(10) Rhaid i’r asesiad ymdrin â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru.’.

**William Powell**

4

Section 41, page 22, after line 14, insert –

- ‘(10) A statement under this section must also include –
- (a) an estimate of the total amount of Welsh consumer emissions for the budgetary period to which the statement relates, and
  - (b) an explanation of how the Welsh Ministers have calculated the estimate.





- (11) The “Welsh consumer emissions” for a period are the emissions of greenhouse gases, whether in Wales or elsewhere, that may reasonably be attributed to the consumption and use of goods and services in Wales during the period.’.

Adran 41, tudalen 22, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

- ‘(10) Rhaid i ddatganiad o dan yr adran hon hefyd gynnwys –
- (a) amcangyfrif o gyfanswm allyriadau defnyddwyr Cymru ar gyfer y cyfnod cyllidebol y mae’r datganiad yn ymwneud ag ef, a
  - (b) eglurhad o sut y mae Gweinidogion Cymru wedi cyfrifo’r amcangyfrif.
- (11) Ystyr “allyriadau defnyddwyr Cymru” ar gyfer cyfnod yw’r allyriadau o nwyon tŷ gwydr, boed hwy yng Nghymru neu yn rhywle arall, y gellir eu priodoli yn rhesymol i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru yn ystod y cyfnod.’.

### **Carl Sargeant**

19

Section 42, page 22, line 19, leave out ‘Within 3’ and insert ‘No later than three’.

Adran 42, tudalen 22, llinell 21, hepgorer ‘O fewn 3 mis i osod’ a mewnosoder ‘Yn ddim hwyrach na thri mis ar ôl gosod’.

### **Llyr Gruffydd**

78

Section 45, page 23, line 30, leave out ‘Before the end of the first budgetary period, the advisory body must send a’ and insert ‘Beginning with the year 2018, the advisory body must send an annual’.

Adran 45, tudalen 23, llinell 31, hepgorer ‘Cyn diwedd y cyfnod cyllidebol cyntaf, rhaid i’r corff cynghori anfon adroddiad’ a mewnosoder ‘Gan ddechrau gyda’r flwyddyn 2018, rhaid i’r corff cynghori anfon adroddiad blynyddol’.

### **Llyr Gruffydd**

79

Section 45, page 24, after line 1, insert –

- ‘( ) The advisory body must send the annual report to the Welsh Ministers no later than six months after the end of the year to which the report relates.
- ( ) No later than four months after receiving a report under subsection (1), the Welsh Ministers must lay a copy of the report and a response to the points raised by the report before the National Assembly for Wales.’.

Adran 45, tudalen 24, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

- ‘( ) Rhaid i’r corff cynghori anfon yr adroddiad blynyddol at Weinidogion Cymru ddim hwyrach na chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn y mae’r adroddiad yn ymwneud â hi.



- ( ) Yn ddim hwyrach na phedwar mis ar ôl derbyn adroddiad o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad ac ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.'.

**William Powell**

47

Section 47, page 25, after line 2, insert –

**[ ] Impact of budget proposals on emissions**

- (1) The Welsh Ministers must, at the same time as laying before the National Assembly of Wales any document setting out draft proposals for the use of resources in any financial year, lay before the National Assembly for Wales a document describing the direct and indirect impact on greenhouse gas emissions of the activities to be funded by virtue of the proposals.
- (2) In this section, “use of resources” has the meaning given in section 125 (4) of the Government of Wales Act 2006.'.

Adran 47, tudalen 25, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

**[ ] Effaith cynigion y gyllideb ar allyriadau**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, ar yr un pryd ag y byddant yn gosod unrhyw ddogfen gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n nodi cynigion drafft ar gyfer y defnydd o adnoddau mewn unrhyw flwyddyn ariannol, osod dogfen gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgrifio effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol y gweithgareddau i'w hariannu yn rhinwedd y cynigion ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- (2) Yn yr adran hon, mae i “y defnydd o adnoddau” yr un ystyr â “use of resources” yn adran 125 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.'.

**Carl Sargeant**

20

Section 48, page 25, line 8, leave out ‘, repealing or revoking’ and insert ‘or repealing’.

Adran 48, tudalen 25, llinell 8, hepgorer ‘, yn diddymu neu'n dirymu’ a mewnosoder ‘neu'n diddymu’.

**Carl Sargeant**

21

Section 50, page 25, line 36, leave out ‘interim emissions’.

Adran 50, tudalen 25, llinell 37, hepgorer ‘allyriadau interim’.

**Carl Sargeant**

22

Section 50, page 26, line 1, leave out ‘interim emissions’.

Adran 50, tudalen 26, llinell 1, hepgorer ‘allyriadau interim’.



## **Llyr Gruffydd**

80

Section 52, page 27, after line 2, insert—

### *'Adaptation programmes*

#### **[ ] Programmes for adaptation to climate change**

- (1) This section applies where the Secretary of State lays a report under section 56 of the Climate Change Act 2008 (c.27) (report on impact of climate change) before Parliament.
- (2) The Welsh Ministers must lay a programme before the National Assembly for Wales—
  - (a) setting out—
    - (i) their objectives in relation to adaptation to climate change;
    - (ii) their proposals and policies for meeting those objectives;
    - (iii) the arrangements for involving employers, trade unions and other stakeholders in meeting those objectives;
    - (iv) the mechanisms for ensuring public engagement in meeting those objectives;
    - (v) the period within which those proposals and policies will be introduced; and
  - (b) otherwise addressing the risks identified in the report under section 56 of the Climate Change Act 2008.
- (3) Where the report laid under section 56 of the Climate Change Act 2008 is a subsequent report (within the meaning of subsection (3) of that section), the programme must contain an assessment of the progress made towards implementing the objectives, proposals and policies set out in the previous programme.
- (4) The Welsh Ministers must lay each programme as soon as reasonably practicable after they receive the copy of the Secretary of State's report.'

Tudalen 27, ar ôl llinell 3, mewnosoder adran newydd—

#### **[ ] Rhaglenni ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn gosod adroddiad gerbron Senedd y DU o dan adran 56 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (p.27) (adroddiad ar effaith newid yn yr hinsawdd).
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru osod rhaglen gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru—
  - (a) yn nodi—
    - (i) eu hamcanion mewn perthynas ag addasu i newid yn yr hinsawdd;
    - (ii) eu cynigion a'u polisiau ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny;



- (iii) y trefniadau ar gyfer cynnwys cyflogwyr, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill wrth gyflawni'r amcanion hynny;
  - (iv) y mecanweithiau ar gyfer sicrhau yr ymgysylltir â'r cyhoedd wrth gyflawni'r amcanion hynny;
  - (v) y cyfnod y cyflwynir y cynigion a'r polisiau hynny ynddo; a
- (b) yn ymdrin fel arall â'r peryglon a nodir yn yr adroddiad o dan adran 56 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.
- (3) Pan fo'r adroddiad a osodir o dan adran 56 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn adroddiad dilynol (o fewn ystyr is-adran (3) o'r adran honno), rhaid i'r rhaglen gynnwys asesiad o'r cynnydd a wnaed tuag at weithredu'r amcanion, y cynigion a'r polisiau a nodir yn y rhaglen flaenorol.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod pob rhaglen cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddynt dderbyn y copi o adroddiad yr Ysgrifennydd Gwladol.'

### William Powell

48

Section 53, page 27, after line 30, insert—

“renewable sources” means sources other than fossil fuel and nuclear fuel.’

Adran 53, tudalen 27, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

‘ystyr “ffynonellau adnewyddadwy” (“renewable sources”) yw ffynonellau ar wahân i danwydd ffosil a thanwydd niwclear.’

### Carl Sargeant

23

Section 55, page 28, line 9, leave out ‘may by regulations’ and insert—

‘must make regulations under this section (“carrier bag regulations”).

- (2) Carrier bag regulations may’.

Adran 55, tudalen 28, llinell 9, hepgorer ‘Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol drwy reoliadau’ a mewnosoder—

‘Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon (“rheoliadau bagiau siopa”).

- (2) Caiff rheoliadau bagiau siopa ei gwneud yn ofynnol’.

### Carl Sargeant

24

Section 55, page 28, line 10, leave out ‘any of’.

Adran 55, tudalen 28, llinell 11, hepgorer ‘unrhyw un neu ragor o’r’ a mewnosoder ‘yr’.

### Carl Sargeant

25

Section 55, page 28, leave out lines 25 to 26.



Adran 55, tudalen 28, hepgorer llinellau 26 hyd at 27.

**Janet Haworth**

26A

As an amendment to amendment 26, leave out line 2.

Fel gwelliant i welliant 26, hepgorer llinell 2.

**Carl Sargeant**

26

Section 57, page 29, line 19, after 'purposes', insert –

'which –

- (a) relate to environmental protection or improvement, and
  - (b) directly or indirectly benefit the whole or any part of Wales (whether or not they also benefit any other area).
- (2) But the regulations must provide for an exception enabling a seller of goods to apply the net proceeds of the charge to other charitable purposes where –
- (a) the seller has, within a specified period occurring before provision made under subsection (1) first comes into force, applied amounts received by way of charges for carrier bags to those purposes, and
  - (b) the seller has given notice of having applied amounts to those purposes as mentioned in paragraph (a) and of the seller's wish to be able to apply some or all of the net proceeds of the charge to those purposes.
- (3) The regulations may make provision –
- (a) about how, when and to whom notice must be given;
  - (b) about information that must be provided when giving notice;
  - (c) for the exception to apply subject to conditions'.

Adran 57, tudalen 29, llinell 22, ar ôl 'elusennol', mewnosoder –

'sydd –

- (a) yn ymwneud â diogelu neu wella'r amgylchedd, a
  - (b) o fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol i Gymru gyfan neu unrhyw ran ohoni (pa un a ydynt o fudd hefyd i unrhyw ardal arall ai peidio).
- (2) Ond rhaid i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer eithriad sy'n galluogi gwerthwr nwyddau i gymhwyso'r enillion net o'r tâl at ddibenion elusennol eraill pan fo'r gwerthwr –
- (a) o fewn cyfnod penodedig cyn i'r ddarpariaeth a wneir o dan is-adran (1) ddod i rym am y tro cyntaf, wedi cymhwyso symiau a dderbyniwyd ar ffurf taliadau am fapiau siopa at y dibenion hynny, a
  - (b) wedi rhoi hysbysiad ei fod wedi cymhwyso symiau at y dibenion hynny fel y crybwyllir ym mharagraff (a) ac am ddymuniad y gwerthwr i allu cymhwyso'r holl enillion net o'r tâl, neu ran ohonynt, at y dibenion hynny.



- (3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth—
- (a) ynghylch sut, pa bryd ac i bwy y mae'n rhaid rhoi hysbysiad;
  - (b) ynghylch gwybodaeth y mae'n rhaid ei darparu wrth roi hysbysiad;
  - (c) i'r eithriad fod yn gymwys yn ddarostyngedig i amodau'.

**Carl Sargeant**

27

Section 57, page 29, line 20, leave out subsection (2) and insert—

- '(1) The provision made by the regulations under subsection (1) may require a seller of goods to apply the net proceeds of the charge—
- (a) to such charitable purposes within that subsection as the seller may determine, or
  - (b) where the regulations specify one or more charitable purposes, to those specified purposes or to such of them as the seller may determine.
- (1) Carrier bag regulations may (among other things)—
- (a) provide for the net proceeds of the charge to be treated as having been applied in accordance with provision made under this section if they are accepted by specified persons or persons of a specified description (or both);
  - (b) make provision about the arrangements under which the net proceeds of the charge are to be given by sellers to the persons mentioned in paragraph (a) or any other person;
  - (c) require persons who accept any net proceeds of the charge to apply the proceeds to charitable purposes in accordance with provision made under subsection (1) or (2).'

Adran 57, tudalen 29, llinell 23, hepgorer is-adran (2) a mewnosoder—

- '(1) Caiff y ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol i werthwr nwyddau gymhwyso'r enillion net o'r tâl—
- (a) at y dibenion elusennol hynny o fewn yr is-adran honno y bydd y gwerthwr yn penderfynu arnynt, neu
  - (b) pan fo'r rheoliadau'n pennu un diben elusennol neu ragor, at y dibenion penodedig hynny neu at y rhai hynny o'u plith y bydd y gwerthwr yn penderfynu arnynt.
- (1) Caiff rheoliadau bagiau siopa (ymhlith pethau eraill)—
- (a) darparu bod yr enillion net o'r tâl i'w trin fel petaent wedi eu cymhwyso yn unol â darpariaeth a wneir o dan yr adran hon os cânt eu derbyn gan bersonau penodedig neu bersonau o ddisgrifiad penodedig (neu'r ddau);
  - (b) gwneud darpariaeth ar gyfer y trefniadau i'r enillion net o'r tâl gael eu rhoi gan werthwyr i'r personau a grybwyllir ym mharagraff (a) neu i unrhyw berson arall;



- (c) ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n derbyn unrhyw enillion net o'r tâl gymhwyso'r enillion at ddibenion elusennol yn unol â darpariaeth a wneir o dan is-adran (1) neu (2).'

**Carl Sargeant**

28

Section 57, page 30, line 5, leave out '(including such charitable purposes' and insert 'within subsection (1) (including such charitable purposes within that subsection'.

Adran 57, tudalen 30, llinell 5, hepgorer '(gan gynnwys y dibenion elusennol hynny' a mewnosoder 'o fewn is-adran (1) (gan gynnwys y dibenion elusennol hynny o fewn yr is-adran honno'.

**Janet Haworth**

64

Section 58, page 30, line 20, leave out 'person' and insert 'local authority'.

Adran 58, tudalen 30, llinell 20, hepgorer 'person' a mewnosoder 'awdurdod lleol'.

**Carl Sargeant**

29

Section 65, page 33, line 24, after 'conviction', insert ', or on conviction on indictment,'.

Adran 65, tudalen 33, llinell 24, ar ôl 'conviction', mewnosoder ', or on conviction on indictment,'.

**Janet Haworth**

65

Section 65, page 33, line 34, leave out 'may' and insert 'must'.

Adran 65, tudalen 33, llinell 34, hepgorer 'may' a mewnosoder 'must'.

**Carl Sargeant**

30

Section 66, page 34, line 26, after 'conviction', insert ', or on conviction on indictment,'.

Adran 66, tudalen 34, llinell 26, ar ôl 'conviction', mewnosoder ', or on conviction on indictment,'.

**Janet Haworth**

66

Section 66, page 34, after line 36, insert—

- ( ) effluent resulting from the de-watering of food waste, or
- ( ) an effluent discharged following enzyme or biological treatment of food waste.'

Adran 66, tudalen 34, ar ôl llinell 36, mewnosoder—

- ( ) effluent resulting from the de-watering of food waste, or



- ( ) an effluent discharged following enzyme or biological treatment of food waste.’

**Carl Sargeant**

31

Section 75, page 41, line 22, leave out ‘or the Wild Birds Directive (as applicable)’.

Adran 75, tudalen 41, llinell 23, hepgorer ‘or the Wild Birds Directive (as applicable)’.

**Carl Sargeant**

32

Section 75, page 41, leave out lines 31 to 33.

Adran 75, tudalen 41, hepgorer llinellau 32 hyd at 34.

**Carl Sargeant**

33

Schedule 2, page 64, leave out line 26 and insert –

‘(a) before subsection (1) insert –

“(A1) This section applies where –

- (a) Her Majesty’s Revenue and Customs are exercising their functions;
- (b) any other public authority is exercising its functions in relation to England.”

(b) in subsection (1), for “Every” substitute “The”;

Atodlen 2, tudalen 64, hepgorer llinell 29 a mewnosoder –

‘(a) cyn is-adran (1) mewnosoder –

“(A1) This section applies where –

- (a) Her Majesty’s Revenue and Customs are exercising their functions;
- (b) any other public authority is exercising its functions in relation to England.”

(b) yn is-adran (1), yn lle “Every” rhodder “The”;

**Carl Sargeant**

34

Schedule 2, page 64, line 34, leave out ‘omit “in relation to’ and insert ‘for “in relation to England, a county council” substitute “a county council in’.

Atodlen 2, tudalen 64, llinell 37, hepgorer ‘hepgorer “in relation to’ a mewnosoder ‘yn lle “in relation to England, a county council” rhodder “a county council in’.





**Janet Haworth**

67

Schedule 2, page 65, after line 21, insert –

*'Marine and Coastal Access Act 2009 (c.23)*

[ ] The Marine and Coastal Access Act 2009 is amended as follows.

[ ] In Schedule 6, after paragraph 6 (2) (i) insert –

“(j) in the case of an area in Wales, the national natural resources policy published under section 9 of the Environment (Wales) Act 2015,”.’.

Atodlen 2, tudalen 65, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

*'Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23)*

[ ] Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

[ ] Yn Atodlen 6, ar ôl paragraff 6 (2) (i) mewnosoder –

“(j) in the case of an area in Wales, the national natural resources policy published under section 9 of the Environment (Wales) Act 2015,”.’.

**Carl Sargeant**

35

Schedule 2, page 65, line 23, leave out 'In section 38(3) of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015' and insert –

‘(1) The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 is amended as follows.

(2) In section 11(3), for the words after “means” substitute “the goals set out in “Transforming our world: the 2030 Agenda for Sustainable Development”, adopted by the General Assembly of the United Nations by resolution A/Res/70/1 of 25 September 2015”.

(3) In section 38(3)‘.

Atodlen 2, tudalen 65, llinell 23, hepgorer ‘Yn adran 38(3) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' a mewnosoder –

‘(1) Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 11(3), yn lle'r geiriau ar ôl “nodau” rhodder “a bennir yn Trawsnewid ein byd: Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenedloedd Unedig gan benderfyniad A/Res/70/1 ar 25 Medi 2015”.

(3) Yn adran 38(3)‘.

